# PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD

Dyddiad: 9 Mawrth 2000

Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 1

Amser: 9.30-12.30

Teitl: Adroddiad y Cadeirydd

## Diben

Rhoi'r newyddion diweddaraf ar ystod o faterion nad ydynt yn cyfiawnhau papurau llawn. Cylchredir yr adroddiad hwn er gwybodaeth.

## Argymhelliad

Dylai Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

## Cefndir

1. Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar 25 Tachwedd 1999. Gwelwyd nifer o ddatblygiadau ers hynny, ac fe'u rhestrir isod.

## Cynrychiolaeth y Cynulliad ym Mrwsel

***2.*** Bydd Aelodau'n gwybod bod y Cynulliad wedi pleidleisio o blaid ymuno â Chanolfan Ewropeaidd Cymru yn ystod dadl y cyfarfod llawn ar 29 Chwefror. Cafodd Aelodau'r cyfle i ymweld ag adeilad newydd Canolfan Ewropeaidd Cymru yn ystod yr ymweliad â Brwsel ar 2 a 3 Mawrth.

3. Mae Pennaeth Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel bellach wedi'i benodi. Gwahoddwyd ceisiadau am Swyddog Gweithredol gan ymgeiswyr o fewn y gwasanaeth sifil, a gwneir penodiad cyn diwedd y mis.

## Pwyllgor y Rhanbarthau

4. Bydd Aelodau'n gwybod nad yw Eurig Wyn bellach yn cael cynrychioli Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau, gan iddo gael ei ethol yn Aelod o Senedd Ewrop y llynedd. Ymddiswyddodd y Cynghorydd Linda Matthews a'r Cynghorydd John Evans ar ddiwedd 1999. Mae'r Cynghorydd Brian

Smith yn dal i fod yn aelod o'r Pwyllgor, gan gynrychioli llywodraeth leol.

5. Mae'r newidiadau hyn wedi rhoi cyfle i'r Cynulliad enwebu aelod llawn ac un eilydd ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau. Bwriedir i'r aelod llawn gynrychioli'r blaid fwyaf a'r eilydd gynrychioli'r ail blaid. Bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dal i gael ei chynrychioli gan y Cynghorydd Brian Smith fel aelod llawn, ac mae wedi enwebu'r Cynghorydd Huish fel eilydd. Bydd yr enwau hyn yn cael eu hanfon at yr Ysgrifennydd Tramor, a fydd yn eu henwebu ar ran Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Gan Gyngor y Gweinidogion y mae'r pwer i wneud penodiadau i Bwyllgor y Rhanbarthau.

**Ymweliad â Brwsel**

6. Bu'r cyn-Brif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd ar ymweliad â Brwsel ar 27 Ionawr. Canolbwynt yr ymweliad oedd cyfarfod â'r Comisiynydd Barnier i drafod Dogfen Raglennu Sengl Amcan 1. Bu'r ddau mewn cyfarfod hefyd â Syr Stephen Wall, Cynrychiolydd Parhaol y Deyrnas Unedig i'r Undeb Ewropeaidd, Bill Stowe, y Dirprwy Gynrychiolydd Parhaol, pedwar o Aelodau Cymru o Senedd Ewrop, Jos Gallacher, Cyfarwyddwr Canolfan Ewropeaidd Cymru a George Calder, Pennaeth swyddfa Gweithrediaeth yr Alban ym Mrwsel.

7. Bu'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar ymweliad â Brwsel ar 2 a 3 Mawrth, gan ymgymryd â rhaglen lawn o gyfarfodydd a digwyddiadau. Roedd diwrnod cyntaf eu hymweliad yn cynnwys cyfarfod ag Aelodau Cymru o Senedd Ewrop, taith o amgylch Senedd Ewrop, cyfarfod â Bwrdd Canolfan Ewropeaidd Cymru, gan gynnwys ymweliad â'r adeilad newydd, derbyniad wedi'i drefnu gan Ganolfan Ewropeaidd Cymru a chinio gan Gynrychiolydd Parhaol y Deyrnas Unedig. Roedd ail ddiwrnod yr ymweliad yn cynnwys cyfarfodydd ag uwch swyddogion Cynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig, derbyniad gan y Comisiynydd Kinnock, a oedd yn cynnwys cyfle i gwrdd ag aelodau ei Gabinet, a chyflwyniadau gan nifer o swyddogion Cymru sy'n gweithio i'r Comisiwn.

**Yr Economi Digidol - Seminar yn Helsinki**

8. Bu Val Feld AC mewn seminar ar Yr Economi Digidol yn Helsinki ym mis Tachwedd 1999, fel un o dri chynrychiolydd o Gymru. Cylchredwyd adroddiad i aelodau'r Pwyllgor ar 16 Rhagfyr 1999.

**Cydymffurfio**

9. Dan Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, gall y Cynulliad ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru gan gyflwyno sylwadau ar y materion hynny.

**Cyswllt**

Is-adran Materion Ewropeaidd